

Cyfieithiad Cymraeg o eiriau ac ymadroddion
yn Atodlen 1 yn Deddf Dehongli 1978

Welsh language translation of the words and expressions
in Schedule 1 of the Interpretation Act 1978

“anfon i sefyll prawf”	“sent for trial”	ystyr “anfon i sefyll prawf”, o ran Cymru a Lloegr, yw anfon gan lys ynadon i Lys y Goron i sefyll prawf yn unol ag adran 51 neu 51A o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998;
“ardal heddlu”	“police area”	mae i “ardal heddlu” ac ymadroddion eraill sy’n ymwneud â’r heddlu yr ystyr neu’r effaith a ddisgrifir o ran Cymru a Lloegr gan adran 101(1) o Ddeddf yr Heddlu 1996;
“Arglwydd Ganghellor”	“Lord Chancellor”	ystyr yr “Arglwydd Ganghellor” yw Arglwydd Uchel Ganghellor Prydain Fawr;
“Banc Iwerddon”	“Bank of Ireland”	ystyr “Banc Iwerddon”, yn unol â gofynion y cyd-destun, yw Llywodraethwr a Chwmni Banc Lloegr neu fanc Llywodraethwr a Chwmni Banc Iwerddon;
“Banc Lloegr”	“Bank of England”	ystyr “Banc Lloegr”, yn unol â gofynion y cyd-destun, yw Llywodraethwr a Chwmni Banc Lloegr neu fanc Llywodraethwr a Chwmni Banc Lloegr;
“blwyddyn ariannol”	“financial year”	ystyr “blwyddyn ariannol”, mewn perthynas â materion sy’n ymwneud â’r Gronfa Gyfunol, Cronfa’r Benthyciadau Gwladol, neu arian a ddarperir gan Senedd y Deyrnas Unedig, neu â’r Trysorlys neu â threthi neu gyllid canolog, yw’r deuddeng mis sy’n dod i ben â 31 Mawrth;
“bwrdeistref yn Llundain” neu “un o fwrdeistrefi Llundain”, “bwrdeistref yn Llundain fewnol”, “bwrdeistref yn Llundain allanol”	“London borough”, “inner London borough”, “outer London borough”	ystyr “bwrdeistref yn Llundain” neu “un o fwrdeistrefi Llundain” yw bwrdeistref a ddisgrifir yn Atodlen 1 i Ddeddf Llywodraethu Llundain 1963, ystyr “bwrdeistref yn Llundain fewnol” yw bwrdeistref a ddisgrifir felly ac a rifir o 1 i 12 ac ystyr “bwrdeistref yn Llundain allanol” yw bwrdeistref a ddisgrifir felly ac a rifir o 13 i 32, yn ddarostyngedig (ym mhob achos) i unrhyw newidiadau a wneir o dan Ran IV o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, Rhan 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1992 neu Ran 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007;
“cofrestr pridiannau tir lleol”	“local land charges register”	ystyr “cofrestr pridiannau tir lleol”, o ran Cymru a Lloegr, yw’r gofrestr a gedwir yn unol ag adran 3 o Ddeddf Pridiannau Tir Lleol 1975;
“cofrestru” (mewn	“registered” (in relation to	ystyr “cofrestru”, mewn perthynas â nyrsys a bydwagedd, yw cofrestru yn y

perthynas â nyrsys a bydwragedd)	nurses and midwives)	gofrestr a gynhelir o dan erthygl 5 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 yn rhinwedd cymwysterau mewn nyrsio neu fydwreigiaeth, yn ôl y digwydd;
“Comisiwn Elusennau”	“Charity Commission”	ystyr “Comisiwn Elusennau” yw Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr (gweler adran 13 o Ddeddf Elusennau 2011);
“Comisiynwyr Eglwys Loegr”	“Church Commissioners”	ystyr “Comisiynwyr Eglwys Loegr” yw’r Comisiynwyr a sefydlwyd gan Fesur Comisiynwyr Eglwys Loegr 1947;
“Comisiynwyr y Ddyled Wladol”	“National Debt Commissioners”	ystyr “Comisiynwyr y Ddyled Wladol” yw’r Comisiynwyr er Lleihau’r Ddyled Wladol;
“Comisiynwyr Ystad y Goron”	“Crown Estate Commissioners”	ystyr “Comisiynwyr Ystad y Goron” yw’r Comisiynwyr y cyfeirir atynt yn adran 1 o Ddeddf Ystad y Goron 1961;
“comisiynydd heddlu a throsedd”	“police and crime commissioner”	ystyr “comisiynydd heddlu a throsedd” neu “comisiynydd heddlu a throsedd” yw comisiynydd heddlu a throsedd a sefydlwyd o dan adran 1 o Ddeddf Diwygio’r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011;
“corff plismona lleol”	“local policing body”	mae i “corff plismona lleol” yr ystyr a roddir i “local policing body” gan adran 101(1) o Ddeddf yr Heddlu 1996;
“cronfeydd canolog”	“central funds”	ystyr “cronfeydd canolog”, mewn deddfiad sy’n darparu o ran Cymru a Lloegr ar gyfer talu costau o gronfeydd canolog, yw arian a ddarperir gan Senedd y Deyrnas Unedig;
“cychwyn”	“commencement”	ystyr “cychwyn”, mewn perthynas â Deddf neu ddeddfiad, yw’r amser pan ddaw’r Ddeddf neu’r deddfiad i rym;
“y Cyfrin Gyngor”	“The Privy Council”	ystyr “y Cyfrin Gyngor” yw’r Arglwyddi ac eraill o Dra Anrhydeddus Gyfrin Gyngor Ei Mawrhydi;
“Cyllid a Thollau Ei	“Her Majesty’s Revenue	mae i “Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi” yr ystyr a roddir gan adran 4 o Ddeddf

Mawrhydi"	and Customs"	Comisiynwyr Cyllid a Thollau 2005;
"Cymru"	"Wales"	ystyr "Cymru" yw'r ardal a ffurfir drwy gyfuno'r siroedd a grëwyd gan adran 20 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i deddfwyd yn wreiddiol, ond yn ddarostyngedig i unrhyw newid a wneir o dan adran 73 o'r Ddeddf honno (newid canlyniadol i'r ffin yn sgil newid cwrs dŵr);
"cytundeb yr AEE"	"EEA agreement"	ystyr "cytundeb yr AEE" yw'r cytundeb ar yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a lofnodwyd yn Oporto ar 2 Mai 1992, ynghyd â'r Protocol sy'n amrywio'r Cytundeb hwnnw a lofnodwyd ym Mrwsel ar 17 Mawrth 1993, fel y'i haddesir neu yr ychwanegir ato o bryd i'w gilydd;
"Cytuniadau'r UE" neu "yr UE"	"The EU" or "the EU Treaties"	mae i "Cytuniadau'r UE" neu "yr UE" yr ystyron a ragnodir i "the EU Treaties" a "the EU" gan Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac mae i ymadroddion Cymraeg eraill sy'n cyfateb i ymadroddion Saesneg a ddiffinnir gan adran 1 o'r Ddeddf honno ac Atodlen 1 iddi yr ystyron a ragnodir gan y Ddeddf honno;
"darparwr cofrestredig o dai cymdeithasol", "darparwr tai cymdeithasol preifat cofrestredig", "darparwr tai cymdeithasol cofrestredig preifat" a "darparwr cofrestredig preifat tai cymdeithasol"	"private registered provider of social housing"	mae i "darparwr cofrestredig o dai cymdeithasol" yr ystyr a roddir i "registered provider of social housing" ac mae i "darparwr tai cymdeithasol preifat cofrestredig", "darparwr tai cymdeithasol cofrestredig preifat" a "darparwr cofrestredig preifat tai cymdeithasol" yr ystyr a roddir i "private registered provider of social housing" gan adran 80 o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008 (ac mae "er elw" ac "nid er elw" mewn cysylltiad â darparwr cofrestredig i'w darllen yn unol ag adran 115 o'r Ddeddf honno);
"darparwr gwasanaethau prawf"	"provider of probation services"	mae i "darparwr gwasanaethau prawf", o ran Cymru a Lloegr, yr ystyr a roddir i "provider of probation services" gan adran 3(6) o Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007;
"datganiad statudol"	"statutory declaration"	ystyr "datganiad statudol" yw datganiad a wneir yn rhinwedd Deddf Datganiadau Statudol 1835;

“Deddf”	“Act”	ystyr “Deddf” yw Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig;
“Deddfau Awdurdodaeth Ddiannod”, “euogfarn ddiannod” a “llys awdurdodaeth ddiannod”	“Summary Jurisdiction Acts”, “summary conviction” and “court of summary jurisdiction”	mae i “Deddfau Awdurdodaeth Ddiannod”, “euogfarn ddiannod” a “llys awdurdodaeth ddiannod”, o ran Gogledd Iwerddon, yr un ystyr ag sydd i “Summary Jurisdiction Acts”, “summary conviction” a “court of summary jurisdiction” ym Mesurau Cynulliad Gogledd Iwerddon a Deddfau Senedd Gogledd Iwerddon;
“Deddfau Cymalau Tiroedd”	“Land Clauses Acts”	ystyr “Deddfau Cymalau Tiroedd” – (a) o ran Cymru a Lloegr, yw Deddf Cydgrynhai Cymalau Tiroedd 1845 a Deddf Diwygio Deddfau Cydgrynhai Cymalau Tiroedd 1860, ac unrhyw Ddeddfau sydd mewn grym am y tro sy’n diwygio’r Deddfau hynny; (b) o ran yr Alban, yw Deddf Cydgrynhai Cymalau Tiroedd (Yr Alban) 1845 a Deddf Diwygio Deddfau Cydgrynhai Cymalau Tiroedd 1860, ac unrhyw Ddeddfau sydd am y tro yn diwygio’r Deddfau hynny; (c) o ran Gogledd Iwerddon, yw’r deddfiadau a ddiffinnir felly gan adran 46(1) o Ddeddf Dehongli (Gogledd Iwerddon) 1954;
“y Deddfau Mewnfudo”	“the Immigration Acts”	mae i “y Deddfau Mewnfudo” yr ystyr a roddir i “the Immigration Acts” gan adran 61 o Ddeddf Ffiniau’r DU 2007;
“y Deddfau Treth Gorfforaeth”	“the Corporation Tax Acts”	ystyr “y Deddfau Treth Gorfforaeth” yw’r deddfiadau sy’n ymwneud â threthu incwm ac enillion trethadwy cwmnïau a dosbarthiadau gan gwmnïau (gan gynnwys darpariaethau sy’n ymwneud â’r dreth incwm);
“y Deddfau Treth Incwm”	“the Income Tax Acts”	ystyr “y Deddfau Treth Incwm” yw pob deddfiad sy’n ymwneud â’r dreth incwm, gan gynnwys unrhyw ddarpariaethau yn y Deddfau Treth Gorfforaeth sy’n ymwneud â’r dreth incwm;
“y Deddfau Trethi”	“the Tax Acts”	ystyr “y Deddfau Trethi” yw’r Deddfau Treth Incwm a’r Deddfau Treth Gorfforaeth;

“deddfiad”	“enactment”	nid yw “deddfiad” yn cynnwys deddfiad ar ffurf Deddf gan Senedd yr Alban nac offeryn a wneir o dan Ddeddf gan Senedd yr Alban;
“deddfwrfa” a “deddfwrfa drefedigaethol”	“colonial legislature” and “legislature”	ystyr “deddfwrfa” a “deddfwrfa drefedigaethol” mewn perthynas â meddiant Prydeinig yw’r awdurdod, ac eithrio Senedd y Deyrnas Unedig neu Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor, sy’n gymwys i wneud deddfau ar gyfer y meddiant;
“deddfwriaeth Gogledd Iwerddon”	“Northern Ireland legislation”	mae i “deddfwriaeth Gogledd Iwerddon” yr ystyr a briodolir i “Northern Ireland legislation” gan adran 24(5) o’r Ddeddf hon; [sef <i>Deddf Dehongli 1978</i>]
“Deyrnas Unedig” neu’r “Deyrnas Gyfunol”	“United Kingdom”	ystyr y “Deyrnas Unedig” neu’r “Deyrnas Gyfunol” yw Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon;
“Etholiad Seneddol”	“Parliamentary Election”	ystyr “Etholiad Seneddol” yw etholiad Aelod i wasanaethu yn Senedd y Deyrnas Unedig ar gyfer etholaeth;
“Y Goruchaf Lys”	“Supreme Court”	ystyr “Y Goruchaf Lys” yw Goruchaf Lys y Deyrnas Unedig;
“Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon” a “Gwasanaeth Heddlu Wrth Gefn Gogledd Iwerddon”	“Police Service of Northern Ireland” and “Police Service of Northern Ireland Reserve”	mae i “Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon” a “Gwasanaeth Heddlu Wrth Gefn Gogledd Iwerddon” yr un ystyr â “Police Service of Northern Ireland” a “Police Service of Northern Ireland Reserve” yn Neddf yr Heddlu (Gogledd Iwerddon) 2000;
“gwladwriaeth AEE”	“EEA state”	ystyr “gwladwriaeth AEE”, mewn perthynas ag unrhyw bryd, yw – (a) gwladwriaeth sydd ar y pryd yn Aelod-wladwriaeth; neu (b) unrhyw wladwriaeth arall sydd ar y pryd yn barti i gytundeb yr AEE;
“gwladwriaeth gyswllt”	“associated state”	ystyr “gwladwriaeth gyswllt” yw tiriogaeth sy’n cynnal statws cyswllt â’r Deyrnas Unedig yn unol â Deddf India’r Gorllewin 1967;
“incwm Talu Wrth Ennill”	“PAYE income”	mae i “incwm Talu Wrth Ennill” yr ystyr a roddir i “PAYE income” gan adran 683

o Ddeddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003;

“Lloegr”	“England”	ystyr “Lloegr”, yn ddarostyngedig i unrhyw newid ffiniau o dan Ran IV o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yw’r ardal a ffurfir gan y siroedd a sefydlwyd gan adran 1 o’r Ddeddf honno, Llundain Fwyaf ac Ynysoedd Scilly;
“llw”, “affidafid” a “tyngu llw”	“oath”, “affidavit” and “swear”	mae “llw” ac “affidafid” yn cynnwys cadarnhad a datganiad, ac mae “tyngu llw” yn cynnwys cadarnhau a datgan;
“Llys Apêl”	“Court of Appeal”	ystyr “Llys Apêl” – (a) o ran Cymru a Lloegr, yw Llys Apêl Ei Mawrhydi yn Lloegr; (b) o ran Gogledd Iwerddon, yw Llys Apêl Ei Mawrhydi yng Ngogledd Iwerddon;
“llys sirol”	“county court”	ystyr “llys sirol” – (a) o ran Cymru a Lloegr, yw’r llys sirol a sefydlwyd o dan adran A1 o Ddeddf Llysoedd Sirol 1984; (b) o ran Gogledd Iwerddon, yw llys a gynhelir ar gyfer adran o dan Orchymyn Llysoedd Sirol (Gogledd Iwerddon) 1980;
“Llys y Farnweiniaeth”	“Court of Judicature”	ystyr “Llys y Farnweiniaeth” yw Llys Barnweiniaeth Gogledd Iwerddon;
“Llys y Goron”	“Crown Court”	ystyr “Llys y Goron” – (a) o ran Cymru a Lloegr, yw Llys y Goron a sefydlwyd gan adran 4 o Ddeddf Llysoedd y Goron 1971; (b) o ran Gogledd Iwerddon, yw Llys y Goron a sefydlwyd gan adran 4 o Ddeddf Barnweiniaeth (Gogledd Iwerddon) 1978;
“llys ynadon”	“magistrates’ court”	mae i “llys ynadon” yr ystyr a briodolir iddo – (a) o ran Cymru a Lloegr, gan adran 148 o Ddeddf Llysoedd Ynadon

- 1980;
(b) o ran Gogledd Iwerddon, gan Erthygl 2(2) o Orchymyn Llysoedd Ynadon (Gogledd Iwerddon) 1981;

“Llywodraethwr Cyffredinol” ac “Llywodraethwr”	“Governor-General” and “Governor”	mae “Llywodraethwr Cyffredinol” yn cynnwys unrhyw berson a chanddo am y tro bwerau Llywodraethwr Cyffredinol, ac mae “Llywodraethwr”, mewn perthynas ag unrhyw feddiant Prydeinig, yn cynnwys y swyddog sydd am y tro yn gweinyddu llywodraethu’r meddiant hwnnw;
“Map Ordnans”	“Ordnance Map”	ystyr “Map Ordnans” yw map a wneir o dan bwerau a roddir gan Ddeddf Arolwg Ordnans 1841 neu Ddeddf Arolwg Ffiniau (Iwerddon) 1854;
“meddiant Prydeinig”	“British possession”	ystyr “meddiant Prydeinig” yw unrhyw ran o ddominiynau Ei Mawrhydi y tu allan i’r Deyrnas Unedig; a phan fo rhannau o’r dominiynau hynny o dan ddeddfwrfa ganolog a deddfwrfa leol, bernir bod pob rhan o dan y ddeddfwrfa ganolog, at ddibenion y diffiniad hwn, yn un meddiant Prydeinig;
“mis”	“month”	ystyr “mis” yw mis calendr;
“partneriaeth sifil”	“civil partnership”	ystyr “partneriaeth sifil” yw partneriaeth sifil sy’n bodoli o dan Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004 neu yn ei rhinwedd (ac mae unrhyw gyfeiriad at bartner sifil i’w ddarllen yn unol â hynny);
“person”	“person”	mae “person” yn cynnwys corff o bersonau corfforaethol neu anghorfforaethol;
“y raddfa safonol”	“the standard scale”	mae i “y raddfa safonol”, wrth gyfeirio at ddirwy neu gosb am drosedd na ellir ei rhoi ar brawf ond yn ddiannod,—

- (a) o ran Cymru a Lloegr, yr ystyr a roddir i “the standard scale” gan adran 37 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982;
- (b) o ran yr Alban, yr ystyr a roddir i “the standard scale” gan adran 225(1) o Ddeddf Trefniadaeth Droseddol (Yr Alban) 1995;
- (c) o ran Gogledd Iwerddon, yr ystyr a roddir i “the standard scale” gan Erthygl 5 o Orchymyn Dirwyon a Chosbau (Gogledd Iwerddon) 1984;

“Rheolau Llys”	“Rules of Court”	ystyr “Rheolau Llys” mewn perthynas ag unrhyw lys yw rheolau a wneir gan yr awdurdod a chanddo’r pŵer i wneud rheolau neu orchmynion sy’n rheoleiddio arferion a gweithdrefnau’r llys hwnnw, ac mae’n cynnwys, yn yr Alban, Acts of Adjournal (rheolau trefniadaeth droseddol) ac Acts of Sederunt (rheolau trefniadaeth sifil); ac mae pŵer yr awdurdod i wneud rheolau llys (fel y’u diffinnir uchod) yn cynnwys pŵer i wneud y rheolau hynny at ddiben unrhyw Ddeddf sy’n cyfarwyddo neu’n awdurdodi i unrhyw beth gael ei wneud gan reolau llys;
“rheoliadau adeiladu”	“building regulations”	mae i “rheoliadau adeiladu”, o ran Cymru a Lloegr, yr ystyr a roddir i “building regulations” gan adran 122 o Ddeddf Adeiladu 1984;
“rheoliadau Talu Wrth Ennill”	“PAYE regulations”	ystyr “rheoliadau Talu Wrth Ennill” yw rheoliadau o dan adran 684 o Ddeddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003;
“Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol”	“Comptroller and Auditor General”	ystyr “Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol” yw Rheolwr Cyffredinol derbyniadau a dyroddiadau Trysorlys Ei Mawrhydi ac Archwilydd Cyffredinol y Cyfrifon Cyhoeddus;
“siryf”	“sheriff”	mae “siryf” i’w ddehongli yn unol ag adran 134(2) a (3) o Ddeddf Diwygio’r Llysoedd (Yr Alban) 2014;
“swyddog consylaidd”	“consular officer”	mae i “swyddog consylaidd” yr ystyr a briodolir i “consular officer” gan Erthygl 1 o Gonfensiwn Fienna ac a roddir yn Atodlen 1 i Ddeddf Cysylltiadau Consylaidd

1968;

“swyddog Cyllid a Thollau”	“officer of Revenue and Customs”	mae i “swyddog Cyllid a Thollau” yr ystyr a roddir i “officer of Revenue and Customs” gan adran 2(1) o Ddeddf Comisiynwyr Cyllid a Thollau 2005;
“swyddog darparwr gwasanaethau prawf”	“officer of a provider of probation services”	mae i “swyddog darparwr gwasanaethau prawf”, o ran Cymru a Lloegr, yr ystyr a roddir i “officer of a provider of probation services” gan adran 9(1) o Ddeddf Rheoli Troseddwy 2007;
“tir”	“land”	mae “tir” yn cynnwys adeiladau a strwythurau eraill, tir a orchuddir â dŵr, ac unrhyw ystad, buddiant, hawddfrait, gwasanaeth frait, hawl mewn tir neu hawl dros dir;
“tiriogaeth Brydeinig dramor”	“British overseas territory”	mae i “tiriogaeth Brydeinig dramor” yr un ystyr ag a roddir i “British overseas territory” yn Neddf Cenedligrwydd Prydeinig 1981;
“trefedigaeth”	“colony”	ystyr “trefedigaeth” yw unrhyw ran o ddominiynau Ei Mawrhydi y tu allan i’r Ynysoedd Prydeinig ac eithrio – (a) gwledydd ac iddynt statws cwbl gyfrifol o fewn y Gymanwlad; (b) tiriogaethau y mae gwlad ac eithrio’r Deyrnas Unedig yn gyfrifol am eu cysylltiadau allanol; (c) gwladwriaethau cyswllt; a phan fo rhannau o’r dominiynau hynny o dan ddeddfwrfa ganolog a deddfwrfa leol, bernir bod pob rhan o dan y ddeddfwrfa ganolog, at ddibenion y diffiniad hwn, yn un drefedigaeth;
“traddodi i sefyll prawf”	“committed for trial”	ystyr “traddodi i sefyll prawf”, o ran Gogledd Iwerddon, yw traddodi yn y ddalfa neu ar fechniaeth gan lys ynadon yn unol ag Erthygl 37 o Orchymyn Llysoedd Ynadon (Gogledd Iwerddon) 1981, neu gan lys, barnwr, ynad preswyl neu awdurdod arall a chanddo’r pŵer i wneud hynny, gyda golwg ar sefyll prawf ar ddiad;
“y Trysorlys”	“the Treasury”	ystyr “y Trysorlys” yw Comisiynwyr Trysorlys Ei Mawrhydi;

“uchafswm statudol” a “mwyafswm statudol”,	“statutory maximum”	ystyr “uchafswm statudol” a “mwyafswm statudol”, wrth gyfeirio at ddirwy neu gosb ar euogfarn ddiannod am drosedd – (a) o ran Cymru a Lloegr, yw’r swm rhagnodedig o fewn ystyr adran 32 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980; (b) o ran yr Alban, yw’r swm rhagnodedig o fewn ystyr adran 225(8) o Ddeddf Trefniadaeth Droseddol (Yr Alban) 1995, ac; (c) o ran Gogledd Iwerddon, yw’r swm rhagnodedig o fewn ystyr Erthygl 4 o Orchymyn Dirwyon a Chosbau (Gogledd Iwerddon) 1984;
“Yr Uchel Lys”	“High Court”	ystyr “Yr Uchel Lys” – (a) o ran Cymru a Lloegr, yw Uchel Lys Barn Ei Mawrhydi yn Lloegr; (b) o ran Gogledd Iwerddon, yw Uchel Lys Barn Ei Mawrhydi yng Ngogledd Iwerddon;
“Uwchlysoedd”, “Llysoedd Uwch” a “Prif Lysoedd”	“Senior Courts”	ystyr “Uwchlysoedd”, “Llysoedd Uwch” a “Prif Lysoedd” yw Uwchlysoedd Cymru a Lloegr;
“ymarferydd meddygol cofrestredig” ac “ymarferwr meddygol cofrestredig”	“registered medical practitioner”	ystyr “ymarferydd meddygol cofrestredig” ac “ymarferwr meddygol cofrestredig” yw person sydd wedi ei gofrestru’n llawn o fewn ystyr Deddf Meddygaeth 1983 ac sy’n dal trwydded i ymarfer o dan y Ddeddf honno;
“ymddiriedolaeth tir” ac “ymddiriedolwyr tir”	“trust of land”, “trustees of land”	mae i “ymddiriedolaeth tir” ac “ymddiriedolwyr tir”, o ran Cymru a Lloegr, yr un ystyron ag sydd i “trust of land” a “trustees of land” yn Neddf Ymddiriedolaethau Tir a Phenodi Ymddiriedolwyr 1996;
“ymgymerwr carthffosiaeth” ac “ymgymerydd carthffosiaeth”	“sewerage undertaker”	mae “ymgymerwr carthffosiaeth” ac “ymgymerydd carthffosiaeth”, o ran Cymru a Lloegr, i’w dehongli yn unol ag adran 6 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991;
“ymgymerwr dŵr”	“water undertaker”	mae “ymgymerwr dŵr”, o ran Cymru a Lloegr, i’w ddehongli yn unol ag adran 6 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991;

<p>“Ynysoedd Prydeinig”, “Ynysoedd Prydain”, neu “Y Deyrnas Unedig a’r Ynysoedd”</p>	<p>“British Islands”</p>	<p>ystyr “Ynysoedd Prydeinig”, “Ynysoedd Prydain”, neu “Y Deyrnas Unedig a’r Ynysoedd” yw’r Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw;</p>
<p>“ysgrifennu”</p>	<p>“writing”</p>	<p>mae “ysgrifennu” yn cynnwys teipio, argraffu, lithograffi, ffotograffiaeth a dulliau eraill o gynrychioli neu atgynhyrchu geiriau ar ffurf weladwy, ac mae ymadroddion sy’n cyfeirio at ysgrifennu i’w dehongli yn unol â hynny;</p>
<p>“Ysgrifennydd Gwladol”</p>	<p>“Secretary of State”</p>	<p>ystyr “Ysgrifennydd Gwladol” yw un o Brif Ysgrifenyddion Gwladol Ei Mawrhydi.</p>
<p>Dehongli ymadroddion penodol sy’n ymwneud â throseddau</p>	<p>Construction of certain expressions relating to offences</p>	<p>O ran Cymru a Lloegr –</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) ystyr “trosedd ddiadwy” yw trosedd, os y’i cyflawnir gan oedolyn, y gellir ei rhoi ar brawf ar ddiad, pa un a ellir ei rhoi ar brawf ar ddiad yn unig ynteu a yw’n drosedd neillfordd; (b) ystyr “trosedd ddiannod” a “tramgwydd diannod” yw trosedd, os y’i cyflawnir gan oedolyn, na ellir ei rhoi ar brawf ond yn ddiannod; (c) ystyr “trosedd neillfordd” yw trosedd ac eithrio trosedd na ellir ei rhoi ar brawf ond ar ddiad yn rhinwedd Rhan V o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988, y gellir, os y’i cyflawnir gan oedolyn, ei rhoi ar brawf naill ai ar ddiad neu’n ddiannod; <p>ac mae’r termau “diadwy”, “diannod” a “neillfordd”, wrth eu cymhwyso i droseddau, i’w dehongli yn unol â hynny.</p> <p>Yn y diffiniadau uchod mae cyfeiriadau at y ffordd neu’r ffyrdd o roi trosedd ar brawf i’w dehongli heb ystyried effaith, os oes un, adran 22 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 ar ddull y treial mewn achos penodol.</p>
<p>Dehongli cyfeiriadau penodol at berthnasau</p>	<p>Construction of certain references to relationship</p>	<p>O ran Cymru a Lloegr, rhaid dehongli –</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) cyfeiriadau (sut bynnag y’u mynegir) at unrhyw berthynas rhwng

- dau berson;
- (b) cyfeiriadau at berson yr oedd ei fam a'i dad yn briod â'i gilydd neu nad oeddent yn briod â'i gilydd ar adeg ei enedigaeth; ac
- (c) cyfeiriadau sy'n gytras â chyfeiriadau sy'n dod o fewn paragraff (b) uchod,

yn unol ag adran 1 o Ddeddf Diwygio Cyfraith Teulu 1987.

Dehongli ymadroddion
penodol sy'n ymwneud â'r
heddlu: yr Alban

Construction of certain
expressions relating to the
police: Scotland

O ran yr Alban –

- (a) mae cyfeiriadau at heddlu yn cynnwys cyfeiriadau at Wasanaeth Heddlu'r Alban;
- (b) mae cyfeiriadau at brif swyddog heddlu yn cynnwys cyfeiriadau at brif gwnstabl Gwasanaeth Heddlu'r Alban;
- (c) ystyr "awdurdod heddlu" yw Awdurdod Heddlu'r Alban;
- (d) yr Alban yw "ardal heddlu" Gwasanaeth Heddlu'r Alban ac mae cyfeiriadau at heddlu neu awdurdod heddlu ar gyfer unrhyw ardal yn cynnwys cyfeiriadau at Wasanaeth Heddlu'r Alban neu, yn ôl y digwydd, Awdurdod Heddlu'r Alban;
- (e) mae cyfeiriadau at gwnstabl neu brif gwnstabl unrhyw ardal neu at gwnstabl neu brif gwnstabl a benodir ar gyfer unrhyw ardal i'w dehongli fel cyfeiriadau at gwnstabl neu, yn ôl y digwydd, brif gwnstabl Gwasanaeth Heddlu'r Alban neu at gwnstabl neu, yn ôl y digwydd, y prif gwnstabl a benodir ar gyfer Gwasanaeth Heddlu'r Alban.